Fel yr eglurir, yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Trysorydd Cenedlaethol, (a nodir ar dudalen 8), mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol a bennir yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn gyfrifol am asesu gallu'r Blaid i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio busnes hyfyw yn sail i'r cyfrifyddu.

**Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Plaid Cymru**

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yno. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn engriftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll;

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Blaid, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau yn ymwnedd â thorri egwyddorion rheoleiddio'r DU, megis y rhai a reolir gan y Comisiwn Etholiadol, ac fe wnaethom ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiad ariannol megis Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Gwerthuswyd cymhellion y rheolwyr a'r cyfleoedd ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyr rheolaethau). Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda rheolwyr a swyddogion, gan gynnwys ystyried achosion hysbys o ddiffyg cydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau;
- Adolygu ffurflennoedd chwarterol a gyflwynir i'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â chydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau;
- Adolygu cofnodion cyfarfodydd perthnasol y pwylgorau Cyllid ac Archwilio, Risg a Chydymffuriaeth;
- Dethol sampl o drafodion a'u holrhain at ddogfennaeth i sefydlu eu bod yn drafodion busnes dilys;
- Cynllunio gweithdrefnau archwilio i ymgorffori natur anrhagweladwy parthed natur, amseriad neu raddau ein profion; a
- Dynodi trafodion mawr neu anarferol i sichrau ein bod wedi deall y rhesymu tu ôl iddynt a'n cytuno eu bod yn addas.

Mae cyfngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau os nad ydynt yn perthyn yn agos i ddigwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Fel rhan o archwiliad yn unol â SAR (DU), rydym yn arfer barn broffesiynol ac yn arfer amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rydym hefyd yn;

- Nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylweddol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o gamgymeriad oherwydd gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwiadau, neu ddiystyr rheolaeth fewnol.

Adroddiad Yr Archwiliwr Annibynnol i Aelodau Plaid Cymru

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

- Dod i ddeall rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y blaid
- Gwerthuso priodoldeb y polisiau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu a'r datgeliadau cysylltiedig a wnaed yn y datganiadau ariannol.
- Dod i'r casgliad ar briodoldeb y defnydd o gyfrifo ar sail busnes hyfyw ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r blaid i barhau fel busnes hyfyw. Os byddwn yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd sylweddol yn bodoli, mae'n ofynnol i ni dynnu sylw yn ein hadroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad adroddiad ein harchwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r blaid beidio â pharhau fel busnes hyfyw.
- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliad, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n rhoi cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhliith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, i gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

**Defnydd o'n Hadroddiad**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Pleidiau fel corff yn unig, yn unol â gofynion Deddf Pleidiau gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a chyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r blaid y materion hyn y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Blaid ac Aelodau'r Blaid fel corff, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

ddiad: 06-07-2023

Ar ran Llŷr James Cyf  
25 Stryd y Bont  
Caerfyrddin  
SA31 3JS

**Cyfrif Incwm A Gwariant Cyfunol**  
**Ar Gyfer Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022**

	Nodyn	2022 £	2021 £
<b>INCWM</b>			
Incwm Rhoddion	2	<b>98,929</b>	145,295
Ffioedd aelodaeth a thanysgrifio		<b>426,900</b>	437,883
Incwm o weithgareddau codi arian	3	<b>29,980</b>	17,388
Incwm o weithgareddau masnachol	4	<b>4,046</b>	1,407
Incwm o gymynroddion		<b>54,870</b>	117,500
Incwm buddsoddi	5	<b>3,925</b>	5,655
Incwm Grantiau	6	<b>137,272</b>	150,810
Incwm o gynadleddau		<b>108,705</b>	15,229
Trafodion etholaethol	8	<b>115,149</b>	<u>132,490</u>
<b>Cyfanswm Incwm</b>		<b>979,776</b>	1,023,657
<b>GWARIANT</b>			
Costau gweithgareddau codi arian	9	<b>5,905</b>	9,434
Costau gweithgareddau masnachol		<b>16,844</b>	3,087
Costau Staffio	10	<b>569,734</b>	610,943
Gwariant Ymgyrchu	11	<b>74,942</b>	293,951
Costau eraill	12	<b>211,754</b>	190,413
Llog a thaliadau sy'n daladwy	13	<b>7,495</b>	6,950
Gwariant Cynadleddau		<b>68,359</b>	15,170
Dibrisiad	7	<b>15,355</b>	16,895
Elw o waredu asedau sefydlog		<b>(13,303)</b>	-
<b>Cyfanswm Gwariant</b>		<b>957,085</b>	1,146,843
<b>Gwarged/ (Diffyg) cyn treth</b>	7	<b>22,691</b>	(123,186)
<b>Trethiant</b>	14	<b>(636)</b>	<u>(753)</u>
<b>Gwarged Net/ (Diffyg Net) am y flwyddyn</b>		<b>22,055</b>	<u>(123,939)</u>

*Paratowyd y cyfrif incwm a gwariant ar y sail bod yr holl weithrediadau yn weithrediadau parhaol*

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 33 yn rhan o'r datganiadau ariannol.*

**Cyfrif Incwm A Gwariant Y Blaid Ganolog**  
**Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022**

---

	Nodyn	2022 £	2021 £
<b>INCWM</b>			
Incwm Rhoddion	2	97,607	132,144
Ffioedd aelodaeth a thanysgrifio		421,969	432,661
Incwm o weithgareddau codi arian	3	28,219	17,388
Incwm o weithgareddau masnachol	4	4,046	1,407
Incwm o gymnroddion		54,870	117,500
Incwm buddsoddi	5	3,925	5,655
Incwm Grantiau	6	137,272	150,810
Incwm o gynadleddau		108,705	15,229
Trafodion etholaethol	8	113,680	112,892
<b>Cyfanswm Incwm</b>		<b>970,293</b>	985,686
<b>GWARIANT</b>			
Costau gweithgareddau codi arian	9	5,820	9,434
Costau gweithgareddau masnachol		16,844	3,087
Costau Staffio	10	569,734	610,943
Gwariant Ymgyrchu	11	74,942	261,864
Gwariant Eraill	12	202,470	184,834
Llog a thaliadau yn daladwy	13	7,495	6,950
Gwariant y gynhadledd		62,280	15,170
Dibrisiad	7	15,355	16,895
Elw ar waredu asedion sefydlog		(13,303)	-
<b>Cyfanswm Gwariant</b>		<b>941,637</b>	1,109,177
<b>Gwarged / (Diffyg) cyn treth</b>	7	<b>28,656</b>	(123,491)
<b>Trethi</b>	14	<b>(636)</b>	<b>(753)</b>
<b>Gwarged/ (Diffyg) am y flwyddyn</b>		<b>28,020</b>	<b>(124,244)</b>

*Paratowyd y cyfrif incwm a gwariant ar y sail bod yr holl weithrediadau yn weithrediadau parhaol*

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 33 yn rhan o'r datganiadau ariannol*

	Nodyn	2022 £	2021 £
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>			
Asedau Sylweddol	15	<b>190,266</b>	253,507
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>			
Dyledwyr	16	<b>20,145</b>	23,499
Arian mewn llaw ac yn y banc		<b>300,216</b>	<b>187,434</b>
		<b>320,361</b>	510,933
<b>CREDYDWYR</b>			
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	<b>(137,494)</b>	(113,362)
<b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>		<b>182,867</b>	97,571
<b>CYFANSWM ASEDAU LLAI</b>			
<b>CREDYDWYR CYFREDOL</b>		<b>373,133</b>	<b>351,078</b>
<b>CYFANSWM ASEDAU NET</b>		<b>373,133</b>	<b>351,078</b>
<b>CRONFEYDD</b>			
Cronfa Gyffredinol	19	<b>251,156</b>	351,078
Cronfa Penodol	19	<b>121,977</b>	-
<b>CRONFEYDD CRONEDIG</b>	19	<b>373,133</b>	<b>351,078</b>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Swyddogion y Blaid ar 06-07-2023 ac fe'u llofnodwyd eu rhan gan:

Marc Phillips  
Trysorydd Cenedlaethol

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 33 yn rhan o'r datganiadau ariannol.*

PLAID CYMRU

Mantolen Y Blaid Ganolog  
Ar 31 Rhagfyr 2022

	Nodyn	2022	2021
		£	£
<b>ASEDION SEFYDLOG</b>			
Asedau Sylweddol	15	190,266	253,507
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>			
Dyledwyr	16	20,145	23,499
Arian mewn llaw ac yn y banc		289,200	170,453
		309,345	193,952
<b>CREDYDWYR</b>			
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	(137,494)	(113,362)
<b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>		171,851	80,590
<b>CYFANSWM ASEDAU LLAI</b>			
<b>CREDYDWYR CYFREDOL</b>		362,117	334,097
<b>CYFANSWM ASEDAU NET</b>		362,117	334,097
<b>CRONFEYDD</b>			
Cronfa Gyffredinol	19	240,140	334,097
Cronfa Penodol	19	121,977	-
<b>CRONFEYDD CRONEDIG</b>	19	362,117	334,097

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Swyddogion y Blaid ar 06-07-2023 ac fe'u llofnodwyd eu rhan gan:

Marc Phillips  
Trysorydd Cenedlaethol

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 33 yn rhan o'r datganiadau ariannol.*

**Datganiad Cyfun O'r Llif Arian**  
**Ar 31 Rhagfyr 2022**

---

	Nodyn	2022 £	2021 £
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu</b>	20	<b>51,593</b>	(85,679)
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu		<b>51,593</b>	(85,679)
<b>Llif Arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu asedau sefydlog sylweddol	15	<b>(2,138)</b>	(4,531)
Enillion o waredu asedau sefydlog	15	<b>63,327</b>	-
<b>Cynnydd / (Gostyngiad) net mewn arian / cyfwerth ag arian</b>		<b>112,782</b>	(90,210)
<b>Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn</b>		<b>187,434</b>	277,644
<b>Arian a chyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn</b>		<b>300,216</b>	<b>187,434</b>

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 18-33 yn rhan o'r datganiadau ariannol.*

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

## 1. POLISIâu CYFRIFO

### Gwybodaeth gyffredinol a sail paratoi

Nid yw Plaid Cymru wedi'i hymgorffori yn y gyfraith ac felly nid yw wedi'i rhwymo gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'n ofynnol i'r blaid baratoi datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm 2000 ("PPER"). Cyfeiriad y blaid yw Tŷ Gwynfor, Marine Chambers, Anson Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â safonau cyfrifyddu cymwys gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, Y Safon Adrodd Ariannol sy'n Gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102). Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae'r datganiadau ariannol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'r gofyniad datgelu yn Adran 1a o FRS102 wedi'i gymhwysu ac eithrio lle mae datgeliad ychwanegol yn ofynnol gan y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol neu lle mae'r ofynnol i ddangos darlun cywir a theg.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling, sef arian cyfredol gweithredol y blaid wedi'i dalgrynnu i'r £ agosach.

Mae'r polisiau cyfrifyddu arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u nodi isod. Mae'r polisiau hyn wedi'u cymhwysu'n gyson ar gyfer pob blwyddyn a'u cyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

### Busnes Hyfyw

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw mae'r blaid wedi dychwelyd diffyg cyfunol, cyn treth o £22,691. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y blaid gronfeydd arian wrth gefn cyfunol o £300,216.

Yn gyffredin â phleidiau gwleidyddol eraill, mae Plaid Cymru yn dibynnu ar aelodaeth ac incwm codi arian i gwrdd â chyfran helaeth o'i gwariant, gan gynnwys y rhan fwyaf o'i gwariant cylchol. Mae'r blaid hefyd yn derbyn rhoddion a chymynroddion gan gefnogwyr y blaid. Natur incwm o'r fath yw bod elfen annisgwy yn gysylltiedig ag ef.

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol wedi paratoi cyllidebau Incwm a Gwariant a rhagamcanion llif arian ar gyfer y flwyddyn hyd at Rhagfyr 2023 ac mae'n fodlon bod gan y blaid ddigon o aelodaeth, incwm codi arian, cronfeydd wrth gefn, grantiau ac incwm masnachu i alluogi'r blaid i gyflawni ei rhwymedigaethau ariannol, wrth iddynt ddod yn ddyledus ac i gyflawni ei amcanion sefydliadol a gwleidyddol.

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn teimlo bod yr adnoddau arian parod a ragwelir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn ddigonol i alluogi'r blaid i wynebu heriau yn y dyfodol.

Nodiadau ar y Datganiad Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

## 1. POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Yng ngoleuni'r uchod a thrwy wneud ymholiadau a chan ystyried yr holl amgylchiadau, mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn ystyried ei bod yn briodol parhau i barato'i'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

### Sail Cyfuno

Ym mis Chwefror 2010, lleihodd Plaid Cymru nifer yr unedau cyfrifo yng Nghymru drwy broses o uno a chydgrynhoi. Unodd y rhan fwyaf o'r unedau â'r unedau cyfrifo lleol ac maent yn dal yn atebol i'r Comisiwn Etholiadol yn unigol. Nid yw'r unedau cyfrifo hyn wedi'u cyfuno â'r cyfrifon hyn. Gadawodd y broses uno 5 pwylgor rhanbarth a 4 adran o'r Blaid (nawr mae yna 6 adran fel y nodwyd ar dudalen 2) a'u rhoi o dan reolaeth Plaid Cymru, y Blaid Wleidyddol Ganolog. Y rhanbarthau a'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon cyfunol hyn yw:

- Cymdeithas y Cynghorwyr
- Plaid Ifanc
- Adran y Merched
- Adran Undeb
- Pride Plaid
- BAME Plaid
- Pwyllgor Canol De Cymru
- Pwyllgor Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Pwyllgor Dwyrain De Cymru
- Pwyllgor Gorllewin De Cymru
- Pwyllgar Gogledd Cymru

O ran y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022, derbyniodd y blaid ffurflenni gan yr holl unedau cyfrifyddu gweithredol. Roedd y 5 rhanbarth yn weithredol yn ystod y flwyddyn oherwydd y cylch etholiadol. Nid yw'r Blaid Ganolog yn buddsoddi yn y pwylgorau a'r adrannau hyn.

Mae'r cyfrifon ar gyfer y rhanbarthau a'r adrannau cyfunol yn cael eu cynhyrchu'n bennaf ar sail cyfrifo arian parod yn hytrach nag ar sail croniadau. Nid ystyrir y byddai ailddatgan y canlyniadau hyn ar sail croniadau yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r flwyddyn.

### Cydnabod Incwm

Mae incwm yn cael ei fesur ar werth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu dderbyniadwy net o DAW, gostyngiadau masnach ac ad-daliadau etholaeth.

Mae incwm yn cael ei gydnabod pan fydd yr holl amodau canlynol wedi'u bodloni:

- Mae gan y blaid hawl i'r ased;
- Bod sicrwydd rhesymol y bydd yr ased yn cael ei dderbyn; a
- Gellir mesur gwerth yr ased gyda sicrwydd rhesymol.

**1. POLISIAU CYFRIFO (parhad)**

Mae cymhwysyo'r mein prawf hyn at fathau penodol o incwm yn arwain at y driniaeth ganlynol:

- Mae rhoddion o asedau ariannol, a buddsoddiadau datodiad ac incwm codi arian yn cael eu cydnabod ar werth y farchnad yn y cyfrif incwm a gwariant pan gant eu derbyn. Mae rhoddion o incwm tybiannol yn cael eu cydnabod ar dderbyniad ar werth marchnadol perthnasol yr eitem neu wasanaeth a dderbyniwyd gyda thraul o'r un swm yn cael ei gydnabod ar yr un pryd;
- Pan dderbynnir rhoddion sydd ag amodau o ran cymhwys natur y gwariant, cydnabyddir incwm pan fodlonir yr amodau sydd ynghlwm wrth y rhodd honno'n llawn;
- Mae grantiau'n cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant pan fydd yr amodau derbyn wedi'u bodloni;
- Mae ffioedd aelodaeth a thanysgrifio nad ydynt yn ôl-ddyledus yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo;
- Mae cymynroddion gan gymwynaswyr sydd wedi marw cyn diwedd y flwyddyn yn cael eu cydnabod pan fydd cynrychiolwyr personol yr ymadawedig wedi hysbysu'r blaidd o'r gymynrodd, eu bod wedi derbyn grant cynrychiolaeth ac nad oes unrhyw faterion arwyddocaol ar ôl yn ymwneud ag union raniad yr ystâd; a
- Mae llog sydd i'w dderbyn ac incwm rhent yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail croniadau.
- Mae incwm cynadleddau ac incwm masnachol yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail croniadau.

**Eiddo Buddsoddi**

Mae eiddo buddsoddi, sef eiddo i ennill rhenti a/neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, yn cael ei gydnabod i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys cost prynu ac unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n unioengyrchol. Yn dilyn hynny caiff ei fesur ar werth teg wrth iddo gael ei asesu naill ai gan briswyr proffesiynol bob pum mlynedd neu gan swyddogion y blaidd ar ddyddiad gorffen yr adroddiad oni bai bod prisiadau wedi'u darparu gan arbenigwyr ar werthu eiddo, pan gydnabyddir y prisiadau hyn yn y cyfrifon. Mae'r diffyg ar ailbrisio yn cael ei gydnabod yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**Asedau Sefydlog Sylweddol**

Mae asedau sefydlog sylweddol, heblaw tir ac adeiladau, wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gost hanesyddol. Erys tir ac adeiladau ar gost dybiedig ar y dyddiad trosglwyddo i FRS102. Darperir dibrisiant ar yr holl asedau sefydlog sylweddol ac eithrio tir rhydd-ddaliadol ac eiddo buddsoddi ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei oes amcangyfrifol, defnyddiol :-

- Eiddo prydles hir - 2% y flwyddyn
- Gosodion ac offer - 25% y flwyddyn
- Gwelliannau i eiddo - 10% y flwyddyn

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

**1. POLISIâu CYFRIFON (Parhad)**

Asesir yr angen am unrhyw amhariad ased sefydlog trwy gymharu gwerth cario'r ased yn erbyn ei werth uchaf posibl uchaf neu ei werth o'i ddefnyddio

**Costau Pensiwn**

Mae cyfraniadau i gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y blaid yn cael eu rhoi ar y cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn maent yn daladwy.

**Trethiant**

Caiff y blaid ei thrin fel cymdeithas anghorfforedig at ddibenion treth ac felly mae'n agored i dreth gorfforaeth ar ei hincwm buddsoddi. Mae hefyd yn dwyn treth ar unrhyw drafodion buddsoddi sy'n arwain at enillion cyfalaf. Mae treth gyfredol yn cynrychioli swm y dreth sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy mewn perthynas â'r elw (neu golled) trethadwy ar gyfer y cyfnodau adrodd presennol neu flaenorol. Mae'n cael ei fesur ar y swm y disgwylir iddo gael ei dalu neu ei adennill gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a'r cyfreithiau sydd wedi'u deddfu neu eu deddfu'n sylweddol erbyn dyddiad y fantolen. Ni chydubyddir unrhyw dreth ohiriedig gan fod unrhyw incwm buddsoddi yn cael ei drethu ar yr un sail ag y'i cydnabyddir yn y cyfrif incwm a gwariant.

**Treth Ohiriedig**

Yn gyffredinol, cydnabyddir rhwymedigaethau treth ohiriedig ar gyfer yr holl wahaniaethau amseru a chaiff asedau treth ohiriedig eu cydnabod i'r graddau y mae'n debygol y cant eu hadennill yn erbyn gwrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elw trethadwy arall yn y dyfodol. Nid yw asedau a rhwymedigaethau o'r fath yn cael eu cydnabod os yw'r gwahaniaeth amser yn deillio o ewyllys da neu o gydnabyddiaeth gychwynnol o asedau a rhwymedigaeth eraill mewn trafodiad nad yw'n effeithio ar yr elw treth na'r elw cyfrifyddu.

Mae swm cario asedau treth ohiriedig yn cael ei adolygu ar bob dyddiad diwedd adrodd yn ôl a'i leihau i'r graddau and yw'n debygol mwyach y bydd digon o elw trethadwy ar gael i ganiatáu adennill yr ased cyfan neu ran ohono. Cyfrifir treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yn y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei setlo, neu pan gaiff yr ased ei wireddu. Mae treth ohiriedig yn cael ei chodi neu ei chredydu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig yn cael eu gwrthbwys o pan fydd gan y cwmni hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwys o asedau a rhwymedigaethau treth gyfredol a bod yr asedau a'r rhwymedigaethau treth ohiriedig yn ymwneud â threth a godir gan yr un awdurdod treth.

Bydd treth ohiriedig sy'n ymwneud ag eiddo buddsoddi a fesurir ar werth teg yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a'r lwfansau sy'n berthnasol i werthu'r ased.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

**1. POLISIâu CYFRIFON (Parhad)**

**Treth Ar Werth**

Mae'r blaid wedi'i chofrestru at ddibenion Treth Ar Werth (TAW), ond dim ond ar drafodion trethadwy y mae'n atebol. Cytunwyd ar fformiwla eithrio rannol gyda Chyllid a Thollau EM ac adenillwyd TAW. Mae gwerth TAW na ellir ei adennill wedi'i gynnwys yn y categorïau gwariant perthnasol yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

**Darpariaethau**

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan y blaid rwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, ei bod yn debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd yn y setliad a gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

**Offerynnau Ariannol**

Mae'r offerynnau ariannol nad ydynt ynghlwm wrth symudiadau'r farchnad yn cynnwys dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill, arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, credydwyr masnachol a chredydwyr eraill. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae gwerthoedd asedion ac ymrwymiadau ariannol y cwmni yn amcangyfrifon teg.

**Dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif**

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol wedi ystyried a oes unrhyw ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif neu ddyfarniadau arwyddocaol wedi'u gwneud yn y broses o gymhwysôr polisiau cyfrifo uchod i barato'i'r datganiadau ariannol hyn ar wahân i'r ystyriaeth o werthoedd eiddo buddsoddi (nodyn 15). Mae'r Trysorydd Cenedlaethol o'r farn nad oes unrhyw ddyfarniadau allweddol na ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif ar y dyddiad adrodd sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol.

O ran eiddo buddsoddi, mae gwerth teg eiddo buddsoddi yn cynnwys defnyddio technegau prisio proffesiynol, a adolygir yn flynyddol gan swyddogion y blaid ynghyd â thystiolaeth ddigonol i gefnogi'r asesiad hwnnw. Pan nodir ffactorau a allai amharu ar y gwerth gwneir addasiadau priodol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

**2. INCWM RHODDION**

**Cyfunol a Chanolog**

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000, dylid adrodd i'r Comisiwn Etholiadol ar unrhyw roddion unigol neu gyfredol ar gyfer unigolyn sy'n fwy na £7,500 mewn unrhyw flwyddyn calendr.

**3. INCWM O WEITHGAREDDAU CODI ARIAN**

	Cyfunol		Chanolog	
	2022	2021	2022	2021
	£	£	£	£
Clwb 500	15,188	14,890	15,188	14,890
Gweithgareddau				
codi arian eraill	14,792	2,498	13,031	2,498
	<u>29,980</u>	<u>17,388</u>	<u>28,219</u>	<u>17,388</u>

PLAID CYMRU

Nodiadau Ar Y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHOL

	Cyfunol a Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Nwyddau a digwyddiadau	4,046	1,407
	<u>4,046</u>	<u>1,407</u>

5. INCWM BUDDSODDI

	Cyfunol a Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Llog a dderbyniwyd	712	-
Incwm rhent	3,213	5,655
	<u>3,925</u>	<u>5,655</u>

6. INCWM GRANTIAU

	Cyfunol a Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Grant Datblygu Polisi	<u>137,272</u>	<u>150,810</u>

7. GWARGED/ (DIFFYG) CYN TRETH

Nodir y Warged/ (Diffyg) cyn treth ar ôl codi tâl

	Cyfunol a Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Tâl archwiliwyr – gwasanaethau archwilio	8,000	7,800
Tâl archwiliwyr- gwasanaethau eraill	2,200	2,100
Dibrisiad	15,355	16,895
(Elw)/Colled ar waredu asedion sefydlog	<u>(13,303)</u>	<u>-</u>

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

## 8. TRAFODION ETHOLAETH

	Cyfunol		Canolog	
	2022	2021	2022	2021
	£	£	£	£
Cyfraniadau cyflog staff allanol	31,720	31,031	31,720	31,031
Incwm amrywiol	3,592	19,598	2,123	-
Cofrestriadau etholaethau, canghennau ac adrannau	<u>79,837</u>	<u>81,861</u>	<u>79,837</u>	<u>81,861</u>
	<u><b>115,149</b></u>	<u><b>132,490</b></u>	<u><b>113,680</b></u>	<u><b>112,892</b></u>

## 9. COSTAU GWEITHGAREDDAU CODI ARIAN

	Cyfunol		Canolog	
	2022	2021	2022	2021
	£	£	£	£
Apeliadau a rhoddion	320	2,234	320	2,234
Gwobrau Clwb 500	<u>5,585</u>	<u>7,200</u>	<u>5,500</u>	<u>7,200</u>
	<u><b>5,905</b></u>	<u><b>9,434</b></u>	<u><b>5,820</b></u>	<u><b>9,434</b></u>

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

#### 10. COSTAU STAFF A THÂL STAFF

Nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd gan y blaid ganolog yn ystod y flwyddyn oedd 10 (2021: 15)  
Nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd gan y rhanbarthau a'r pwylgorau yn ystod y flwyddyn oedd 5 (2021: 5)

Mae costau staff ar gyfer y personau uchod yn cynnwys:

	Cyfunol a Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Cyflogau	482,752	516,340
Costau nawdd cymdeithasol	40,307	44,245
Costau pensiwn eraill	<u>46,275</u>	<u>50,358</u>
	<u>569,734</u>	<u>610,943</u>
<b>Cyflog cyfartalog fesul gweithiwr</b>	<b>£56,973</b>	<b>£40,730</b>

Derbyniodd 2 aelod o staff gydnabyddiaeth ariannol o fwy na £50,000 yn ystod y flwyddyn (2 yn 2021)

#### 11. GWARIANT YMGYRCHOEDD

	Cyfunol		Canolog	
	2022	2021	2022	2021
	£	£	£	£
Gwariant ymgyrchoedd gan Etholiadau	74,942	87,377	74,942	55,290
Etholiad y Senedd	-	206,574	-	206,574
	<u>74,942</u>	<u>293,951</u>	<u>74,942</u>	<u>261,864</u>

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

## 12. GWARIANT ARALL

	Cyfunol		Canolog	
	2022	2021	2022	2021
	£	£	£	£
Costau Teithio	6,774	2,489	6,774	2,489
Rhent, Trethi a gwasanaethau	14,787	16,747	14,787	16,747
Yswiriant	4,050	4,269	4,050	4,269
Postio, argraffu a deunydd swyddfa	8,131	11,921	8,131	11,921
Ffon, ffacs, e-byst	38,041	29,847	38,041	29,847
Hyfforddi	751	5,882	751	5,882
Cynnal a chadw ac atgyweirio offer	31,766	31,325	31,766	31,325
Glanhau'r Swyddfa	2,737	2,892	2,737	2,892
Ymchwil datblygu polisi a chostau uniongyrchol	46,398	33,260	46,398	33,260
Trwyddedau a Thanysgriffiadau	2,786	2,106	2,182	2,106
Cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol	4,961	3,749	4,961	3,749
Amrywiol	9,094	12,195	414	6,616
Archwiliwyr	10,660	10,360	10,660	10,360
Costau Proffesiynol	11,779	7,187	11,779	7,187
TAW Anadferadwy	19,039	16,184	19,039	16,184
	<u>211,754</u>	<u>190,413</u>	<u>202,470</u>	<u>184,834</u>

PLAID CYMRU

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

13. LLOG A THALIADAU

	Cyfunol		Canolog	
	2022	2021	2022	2021
	£	£	£	£
Costau Banc	7,495	6,946	7,495	6,946
Llog Banc	-	4	-	4
	<u>7,495</u>	<u>6,950</u>	<u>7,495</u>	<u>6,950</u>

# PLAID CYMRU

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2022

## 14. TRETHIANT

	Cyfunol a Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Treth Gorfforaeth – Cyfanswm y tâl treth	<u>636</u>	<u>753</u>

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Treth Gorfforaeth yn cael ei gwneud mewn perthynas â Threth Gorfforaeth sy'n codi yn y cyfnod ar incwm o log banc a buddsoddiadau a dderbyniwyd. Mae'r blaid ond yn gorfol talu Treth Gorfforaeth ar incwm o fuddsoddiadau a dderbyniwyd ac ar unrhyw elw a wnaed ar waredu buddsoddiadau. Nid oedd Treth Gorfforaeth yn daladwy ar waredu yr eiddo fel buddsoddiad.

## 15. ASEDITION SYLWEDDOL – CYFUNOL A'R BLAID YN GANOLOG

	Eiddo les hir dymor	Eiddo fel buddsoddiad	Ffitiadau ac offer	Cyfanswm
	£	£	£	£
<b>COST NEU BRISIAD</b>				
Ar 1 Ionawr 2022	234,335	50,024	209,323	493,682
Ychwanegiadau	-	-	2,138	2,138
Gwaredu	-	(50,024)	-	(50,024)
Ar 31 Rhagfyr 2022	<u>234,335</u>	<u>-</u>	<u>211,461</u>	<u>445,796</u>
<b>DIBRISIAD</b>				
Ar 1 Ionawr 2022	54,616	-	185,559	240,175
Cost am y flwyddyn	3,594	-	11,761	15,355
Ar 31 Rhagfyr 2022	<u>58,210</u>	<u>-</u>	<u>197,320</u>	<u>255,530</u>
<b>GWERTH LLYFR NET</b>				
Ar 31 Rhagfyr 2022	<u>176,125</u>	<u>-</u>	<u>14,141</u>	<u>190,266</u>
Ar 31 Rhagfyr 2021	<u>179,719</u>	<u>50,024</u>	<u>23,764</u>	<u>253,507</u>

PLAID CYMRU

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

**15. ASEDITION SYLWEDDOL – CYFUNOL A'R BLAID YN GANOLOG:  
PARHAD**

Cafodd yr eiddo buddsoddiad, sef [REDACTED] ei werthu ar 16 Medi 2022 am £63,327 (ar ôl tynnu ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol).

Gwerth Llyfr Net yn ôl y cyfrifon oedd £50,024. Felly, gwnaed elw o £13,303.

Rhoddywyd addasiad anghyflawn ar yr eiddo yng nghyfrifon 2020.

Gostyngwyd y Gwerth Llyfr Net o £50,024 i £65,000 yn y cyfrifon hyn.

**16. DYLEDWYR: SYMIAU’N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN**

	Cyfun & Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Dyledwyr Masnach	14,561	14,996
Dyledwyr eraill	1,597	714
Taliadau ymlaen llaw	<u>3,987</u>	<u>7,789</u>
	<u>20,145</u>	<u>23,499</u>

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

## 17. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

	Cyfun & Chanolog	
	2022	2021
	£	£
Credydwyr Masnachol	2,798	24,157
Credydwyr eraill	1,402	-
Trethiant a buddiant cymdeithasol	636	753
Croniadau ac incwm gohiriedig	<u>132,658</u>	<u>88,452</u>
	<u><b>137,494</b></u>	<u><b>113,362</b></u>

Mae'r ffigwr £1,402 yn gredydwyr eraill ynglŷn â symiau yn ddyledus i 'Rhanbarth De/Ddwyrain Cymru'. Mae'r Blaid yn dal yr arian ar ran y rhanbarth, felly mae'r balans yn ymddangos yn ddyledus.

## 18. BENTHYCIADAU: CYFUN A CHANOLOG

Yn ystod y flwyddyn, ni adroddodd y Blaid yn ôl i 'r Comisiwn Etholiadol am unrhyw fenthyciadau o dan PPERA. Nid oedd hi'n ofynnol i'r Blaid adrodd am unrhyw fenthyciadau eraill a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol hon nac yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y trothwy i'r Blaid ddatgan benthyciadau fel hyn yw £7,500.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

## 19. CYSONIAD O'R CRONFEYDD – CYFUNOL

	Cronfa gyffredinol £	Cronfa Penodol £	Cyfanswm £
Ar 1 Ionawr 2021	475,017	-	475,017
Diffyg ar gyfer y flwyddyn	(123,939)	-	(123,939)
<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
Ar 1 Ionawr 2022	351,078	-	351,078
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	22,055	-	22,055
Trosglwyddiadau	(121,977)	121,977	-
<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
Ar 31 Rhagfyr 2022	251,156	121,977	373,133
<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>

## CYSONIAD O'R CRONFEYDD – Y BLAID YN GANOLOG

Ar 1 Ionawr 2021	458,341	-	458,341
Diffyg ar gyfer y flwyddyn	(124,244)	-	(124,244)
<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
Ar 1 Ionawr 2022	334,097	-	334,097
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	28,020	-	28,020
Trosglwyddiadau	(121,977)	121,977	-
<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
At 31 December 2022	240,140	121,977	362,117
<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>

Mae'r cronfeydd sydd wedi eu cysoni o £251,156 a chronfeydd Y Blaid sydd wedi eu cysoni o £240,140 ar gael ar gyfer defnydd cyffredinol y Blaid.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol  
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022

---

**20. LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU'R BLAID**

	<b>Cyfun</b>	
	<b>2022</b>	<b>2021</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
Gwarged /(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn	24,093	(123,186)
Pris Treth Gorfforaeth	(636)	(753)
Gostyngiad / (cynnydd) mewn dyledwyr	3,354	21,175
Gostyngiad/ (cynnydd) mewn credydwyr	22,730	190
Dibrisiad & amhariad	15,355	16,895
Elw o waredu asedion sefydlog	(13,303)	-
Llif arian net o weithgareddau'r blaid	<u>51,593</u>	<u>(85,679)</u>

**21. YMRWYMIADAU LES**

Doedd dim ymrwymiadau les gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

**22. YMRWYMIADAU CYFALAF**

Doedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn (2021 dim).

**23. TRAFODION PARTION PERTHNASOL**

Doedd dim trafodion gyda phartïon perthnasol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn.

**24. CYMRODDION**

Mae'r Blaid yn cydnabod ac yn derbyn cymynroddion pan fo amodau'r hawl wedi eu hateb, pan fo'r swm yn gyfrifiadwy a phan mae derbyn yr incwm yn debygol. Ar 31 Rhagfyr 2022, nid oedd unrhyw gymynroddion i'w cynnwys.

Derbyniwyd cymynroddion o £54,870 yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent wedi eu cynnwys yn y ffigwr ar dudalen 13.